

## **Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Bobl Ifanc**

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

### **Beth ydi Grŵp Craidd?**

Mewn Cyhadledd Amddiffyn Plant Gychwynol, bydd yr unigolion sy'n bresennol yn rhannu gwybodaeth am dy amgylchiadau teuluol. Yna byddant yn penderfynu os ydynt yn teimlo dy fod yn ddiogel neu ydynt yn teimlo y gelli ddod i niwed sylweddol.

Os ydynt yn teimlo nad wyt yn ddiogel, caiff Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ei roi ar waith a bydd angen cynnal Grŵp Craidd.

Mae Grŵp Craidd yn cynnwys pobl sy'n ymwneud a ti a dy deulu, fel dy Ymwelydd Iechyd, Athro, Gweithiwr Cymdeithasol ac aelodau pwysig o'r teulu. Mae pawb yno am eu bod yn gofalu amdanat ti. Mi elli di gymryd rhan yn y cyfarfodydd cymaint neu gyn lleied ag y dymunat. Cofia, ti yw'r person pwysicaf sy'n ymwneud a'r Grŵp Craidd

### **Beth mae Grŵp Craidd yn ei wneud?**

Mae'r Grŵp Craidd yno i sicrhau bod y newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar dy gyfer yn y Cyfarfod Amddiffyn Plant yn cael eu rhoi ar waith. Maent yn siarad am yr hyn y mae angen i bob aelod o'r grŵp ei wneud i helpu i wneud y newidiadau hyn, ac erbyn pryd y byddant yn eu gwneud. Mae'r Grŵp Craidd yn nodi'r holl wybodaeth yma mewn cynllun gweithredu er mwyn i bawb wybod beth a ddisgwylir ganddynt – ei enw fydd y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth gweithredol.

### **Beth os nad wyt yn cytuno gyda'r cynllun?**

Bydd dy Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd Grŵp Craidd, a bydd dy Weithiwr Cymdeithasol yn rhoi gwybod i ti os penderfynir bod angen newid unrhyw beth i wneud pethau'n well i ti. Gobeithio y byddi wedi helpu i lunio'r cynllun. Os nad wyt wedi, neu os nad wyt ti'n hapus ag o mewn unrhyw ffordd, dylet siarad gyda dy Weithiwr Cymdeithasol. Gelli ddweud wrthynt beth nad wyt yn hapus ag o a pham. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod Grŵp Craidd nesaf, lle byddant yn siarad am unrhyw newidiadau y gallent eu gwneud i'r cynllun.

### **Beth sydd angen i fi ei wneud?**

Mae cyfarfodydd y Grŵp Craidd yn ymwneud â ti a dy deulu. Gelli di benderfynu os wyt am fynd i'r cyfarfodydd. Os byddi di yn mynd, mi gei di gwrandawriad – dy farn ti sy'n bwysig. Os hoffet, gelli ysgrifennu beth yr hoffet ei ddweud a gofyn i weithiwr proffesiynol neu aelod o dy deulu ei gymryd gyda nhw i'r cyfarfod. Neu gelli ofyn i eiriolwr dy helpu.

# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Bobl Ifanc

## Beth ydi Eiriolwr?

Eiriolwr yw rhywun sy'n gallu mynd gyda ti i gyfarfodydd i dy helpu i ddweud be wyt ti eisiau ei ddweud a sut wyt yn teimlo. Os nad wyt ti eisiau mynd i'r gynhadledd achos, ond yn awyddus i bawb yno glywed beth wyt ti'n ei feddwl a'i deimlo, gall yr eiriolwr fynd ar dy rhan. Os hoffet i eiriolwr dy helpu, dyweda wrth dy Weithiwr Cymdeithasol.

## Pa mor aml y mae Grŵp Craidd yn cwrdd?

Bydd y cyfarfodydd Grŵp Craidd yn digwydd bob 6 wythnos, a bydd o leiaf dau gyfarfod rhwng y gynhadledd achos gychwynnol a'r adolygiad cyntaf. Mae'r adolygiad cyntaf yn digwydd tri mis ar ôl i dy enw gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r cyfarfod Grŵp Craidd cyntaf yn digwydd o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dy gynhadledd achos. Bydd y cyfarfodydd yn stopio os penderfynir cymryd dy enw oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

## Wrth bwy allaf i ofyn os ydw i eisiau gwybod mwy, neu os nad ydw i'n deall rhywbeth?

Os hoffet ofyn unrhyw beth arall am Grŵpiau Craidd, gelli ofyn i unrhyw un o'r bobl yma:-

- Dy Deulu
- Ymwelydd Iechyd
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Athro

## Allaf i gwyno?

Rydym yn gwrandao ar dy farn a byddwn bob amser yn ceisio ein gorau, ond ni allwn addo bob amser bod yr hyn yr wyt ti eisiau yn bosibl.

Os wyt yn anhapus gyda'r hyn mae unrhyw berson sy'n gweithio gyda ti wedi ei wneud, mae gennynt hawl i wneud cwyn. Gelli cysylltu â'r Swyddog Cwynion mewn unhryw un o'r ffyrdd canlynol neu gofynna i dy Weithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i dy helpu i wneud hyn:-

Rhif rhadffôn: 0800 032 1099

E-bost: [ssdcomments@denbighshire.gov.uk](mailto:ssdcomments@denbighshire.gov.uk)

Ysgrifennwch at: Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3DP

We: [sirddinbych.gov.uk/eichllais](http://sirddinbych.gov.uk/eichllais)

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.